# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Pwysau trethadwy deunydd*

### 19 Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd gan y gweithredwr

(1) Rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy yn y ffordd a ganlyn.

(2) Rhaid i'r gweithredwr bennu pwysau'r deunydd mewn tunelli yn unol ag adran 20.

(3) Os oes gan y gweithredwr gymeradwyaeth o dan adran 21 i gymhwyso disgownt mewn perthynas â'r gwarediad, caiff y gweithredwr gymhwyso'r disgownt (neu ddisgownt is) i'r pwysau a bennir o dan is-adran (2), yn ddarostyngedig i amodau'r gymeradwyaeth (os oes rhai).

(4) Y canlyniad yw pwysau trethadwy'r deunydd yn y gwarediad trethadwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 19 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 19.